

Safonau proffesiynol newydd ar gyfer athrawon addysg bellach ac ymarferwyr dysgu'n seiliedig ar waith

Ffurflen ymateb i ymgynghoriad

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn 20 Gorffennaf 2017 at:

Claire Jones
Tîm Fframweithiau a Safonau Proffesiynol
Is-adran Cwricwlwm
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: Safonau.FEWBL.Standards@cymru.gsi.gov.uk

Enw	Rebecca Williams, Swyddog Polisi
Sefydliad	UCAC

Dewiswch eich swydd

- Ymarferydd addysg bellach
- Ymarferydd dysgu seiliedig ar waith
- Rheolwr addysg bellach
- Rheolwr dysgu seiliedig ar waith
- Arall Undeb Llafur

Amcanion, egwyddorion a'r model

Cwestiwn 1 – Ydych chi'n cytuno bod yr amcanion a'r egwyddorion allweddol y datblygwyd y safonau'n unol â nhw yn briodol fel sail ar gyfer datblygu'r safonau proffesiynol newydd hyn?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Mae'r amcanion yn berffaith synhwyrol ac yn glir eu mynegiant.

Felly hefyd yr egwyddorion allweddol, heblaw am y bedwaredd egwyddor. Y broblem gyda honno yw nad yw'r safonau eu hunain yn 'defnyddio' technegau dysgu, addysgu ac asesu. Tybed a fyddai 'cefnogi' yn air mwy priodol yma? Yn ogystal, nid yw cynnwys y pwynt hwn fel petai'n cyd-fynd yn agos iawn gyda'r teitl 'Ymarferwyr fel meddylwyr beirniadol'.

Cwestiwn 2 – Ydych chi'n cytuno gyda'r datganiad bod cymysgedd penodol o werthoedd, gwybodaeth a sgiliau, gyda'i gilydd, yn diffinio proffesiynoldeb ar waith a dysgu ansawdd uchel?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Does dim byd i anghytuno ag e yn y datganiad hwn.

Cwestiwn 3 – Ydych chi'n cytuno bod y gwerthoedd, gwybodaeth a'r sgiliau'n cynrychioli'r gofynion priodol ar gyfer dysgu effeithiol iawn parhaus?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Bydden ni'n awgrymu rhoi 'Learner-focussed' ar frig y rhestr, ac wedyn cyfnewid iaith a diwylliant yn y pwynt nesaf fel ei fod yn darllen 'Focus on Welsh culture and language.' Ni fyddai hynny'n dibrisio unrhyw un o'r elfennau unigol, ond mi allai osgoi cythruddo diangen.

Cwestiwn 4 – Ydych chi'n cytuno y bydd y datganiadau ymrwymiad personol a'r disgrifyddion ar gyfer athrawon addysg bellach/ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith yn eu cefnogi i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu proffesiynol gydol gyrfa?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	-------------------------------------

Sylwadau ategol

Mae'r datganiadau yn ddigon defnyddiol, ac yn sicr yn rhoi fframwaith ar gyfer myfyrio'n feirniadol (gweler sylwadau penodol dan Gwestiwn 9).

Bydd rôl y safonau hyn o ran annog athrawon ac ymarferwyr i gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu proffesiynol eu hunain yn dibynnu ar nifer o ffactorau eraill. Er enghraifft, nid yw'n gwbl glir o fewn pa gyd-destun y bydd y safonau hyn yn gweithredu, a beth fydd y 'prompts' ar gyfer eu defnyddio. Elfen arall greiddiol i'w llwyddiant fydd bod digon o amser yn cael ei neilltuo i'r ymarferwyr dan sylw i gael myfyrio, cyd-fyfyrio a chydweithio i ddatblygu sgiliau.

Bydd angen awyrgylch ac amgylchiadau cefnogol, a chanllawiau clir iawn i ymarferwyr a rheolwyr ynghylch sut y bwriedir i'r safonau cael eu defnyddio.

Cwestiwn 5 – Yn eich barn chi pa mor dda fydd y safonau newydd yn eich cefnogi chi i fyfyrio ar eich arferion, a chynllunio'ch dysgu proffesiynol?

Sylwadau

Sefydliad/cyflogwr

Cwestiwn 6 – Beth yw'ch barn o ran pa mor dda fydd y safonau newydd yn cefnogi'ch sefydliad i annog y staff i fyfyrio ar eu harferion a datblygu dysgu proffesiynol, ar gyfer eu hunain ac ar gyfer y sefydliad?

Sylwadau

Cwestiwn 7 – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r safonau newydd yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar:

- i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau fydd y safonau newydd yn eu cael yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

Sylwadau

Nid ydym o'r farn y bydd llawer o effaith ar y Gymraeg yn sgil cyflwyno'r safonau proffesiynol hyn.

Cwestiwn 8 – Eglurwch hefyd sut gellid ffurfio neu newid y safonau arfaethedig:

- i) fel eu bod yn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

- ii) fel nad ydynt yn cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Sylwadau

Cwestiwn 9 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Achubwn ar y cyfle fan hyn (gan na ofynnwyd yn benodol yn y cwestiynau uchod) i wneud sylwadau ar eiriad a chyflwyniad y safonau.

Deallwn y rhesymau dros ddatblygu safonau proffesiynol cwbl wahanol ar gyfer y sectorau addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith ar y naill law, ac i athrawon ysgol ('safonau addysgu ac arweinyddiaeth') ar y llall. Mewn nifer o ffyrdd, mae'r safonau arfaethedig hyn yn symlach ac yn rhwyddach o lawer i'w mordwyo na'r rhai cyfatebol ar gyfer ysgolion. Fodd bynnag, o gymharu'r ddau, gwelwn o bosib ambell i fwch yn y safonau dan sylw yn yr ymgynghoriad hwn:

- unrhyw gyfeiriad at 4 pwrpas y cwricwlwm newydd; gwyddom na fydd y cwricwlwm newydd yn uniongyrchol berthnasol i AB, ond mae yna orgyffwrdd, ac efallai bod rhai o'r gwerthoedd yn cario ar draws yr ystod oedran a sectorau gwahanol
- prinder cyfeiriadau at/pwyslais ar arloesi ('innovation')
- prinder cyfeiriadau at/pwyslais ar gyfleoedd am arweinyddiaeth ar bob lefel (h.y. arwain cydweithwyr, prosiectau, rhaglenni)

Mewn perthynas â dull cyflwyno'r safonau, tybed a fyddai modd trefnu a grwpio'r safonau yn ôl themâu; ar hyn o bryd nid oes llwybr rhesymegol yn rhedeg drwyddynt ac felly mae'n teimlo fel cyfres o ddatganiadau ad hoc.

Ymhellach i hyn, o ran hwyluso gallu ymarferwyr i gyd-drafod y safonau a'u cynnwys, mewn sgwrs broffesiynol, teimlwn y byddai rhifo'r ymrwymadau yn gwneud cyfeirio atynt yn rhwyddach. Ni fyddai hynny o reidrwydd yn awgrymu unrhyw drefn na blaenoriaeth, a gellid gwneud hynny'n glir, petai angen, mewn canllawiau.

Datganiad ymrwymiad 2 (amrywiaeth a chydraddoldeb): byddem yn awgrymu newid trefn y disgrifyddion, fel bod y disgrifydd fwyaf cadarnhaol ('embracing diversity and advocating inclusion') yn dod yn gyntaf; mae herio camwahaniaethu yn deillio ohono ac felly'n teimlo'n llawer mwy naturiol yn dod yn ail.

Datganiad ymrwymiad 3 (iaith a diwylliant Cymru): fel yr awgrymwyd gennym uchod, efallai bod gwerth ail-drefnu'r geiriad i gyfeirio at 'Welsh culture and language' (ac mi fyddai hynny'n adlewyrchu trefn y disgrifyddion hefyd). Yn y disgrifydd cyntaf, awgrymwn yn gryf y dylid cynnwys 'embed learning within the culture of Wales...'; gallai hynny fod yn ychwanegol at 'celebrate' neu yn ei le; ni fyddem am weld diwylliant Cymru yn rhywbeth i gyfeirio ato ond yn achlysurol ac o bosib mewn modd tocenistaidd, ond byddai gosod y dysgu o fewn cyd-destun y diwylliant yn ymrwymiad llawer cadarnach a fwy ystyrlon.

Datganiad ymrwymiad 7 (dysgu, addysgu ac asesu effeithiol): mae'r ymrwymiad hwn yn debycach i swydd-ddisgrifiad na safon broffesiynol; hynny yw, dyma ofynion fwyaf sylfaenol y rôl; efallai bod angen ymhelaethu neu fanylu - neu ychwanegu elfen sy'n rhywbeth i ymgynghorodd ato.

Mae'r ddogfen ymgynghorol yn cyfeirio at y ffaith na fydd myfyrwyr ar gyrsiau TAR (AB) yn ddarostyngedig i'r safonau arfaethedig hyn, ac y caiff y gwaith hwnnw ei ddatblygu maes o law. Wrth ymgymryd â'r gwaith hwnnw, bydd angen bod yn ymwybodol o'r bwlch enfawr rhwng natur a manylder y safonau arfaethedig ar gyfer AB/DSW a'r rhai cyfatebol ar gyfer athrawon ysgol, a tra bod modd addasu'r rhai ar gyfer athrawon ysgol i fod yn berthnasol i drothwyon QTS ac NQT, nid yw'n debygol y bydd yr un peth yn wir yn achos y safonau AB/DSW. Bydd angen ystyried rhyw fath o gyfatebiaeth rhwng y safonau ar gyfer myfyrwyr TAR, boed yn TAR 'ysgol' neu AB.